The council wants your views about this important issue and is undertaking a survey to gather feedback. All respondents will be entered into a prize draw to win £100 of High Street Vouchers. The last survey was carried out in 2010 and over 1,200 people returned a completed questionnaire. The information helped shape services and as a result over 450 new childcare places were established within the county borough plus additional childcare support for children aged 11 - 14 in secondary schools.

Look out for a copy of the survey or visit www.caerphilly.gov.uk/earlyyears to complete one online. Alternatively call 01443 863232 for further information.



Dweud eich dweud ar ofal plant

Mae'r cyngor am glywed eich barn ar y mater pwysig hwn ac mae'n cynnal arolwg i gael adborth. Caiff pawb a fydd yn ymateb eu rhoi mewn raffi i ennill gwerth £100 o Dalebau Stryd Fawr. Cynhaliwyd yr arolwg diwethaf yn 2010 a dychwelwyd 1,200 o holiaduron. Helpodd y wybodaeth i lywio'r gwasanaethau ac o ganlyniad crewyd dros 450 o lefydd newydd mewn gofal plant yn y fwrdeistref sirol a darparwyd cymorth gofal plant ychwanegol i blant 11-14 oed mewn ysgolion uwchradd.

Cadwch lygad am gopi o'r arolwg neu ewch i www.caerffili.gov.uk/blynyddoeddycynnar i'w lenwi ar-lein. Fel arall ffoniwch 01443 863232 i gael rhagor o wybodaeth.

PROTECTING YOU

The council's Public Protection team aims to ensure that the county borough is a healthy, safe and fair place for people to live, work & visit. One of the team's key tasks is to expose and bring before the courts those individuals and businesses we discover acting illegally.

Below are examples of recent prosecutions:

EICH DIOGELU CHI

Nod tîm Diogelu'r Cyhoedd y cyngor yw sicrhau bod y fwrdeistref sirol yn lle iach, diogel a thegi i bobl fyw a gweithio ynddo ac ymweld ag ef. Un o brif dasgau'r tîm yw datgelu'r gwir am yr unigolion a'r busnesau hynny sy'n gweithredu'n anghyfreithlon, a'u dwyn gerbron y llys.

Isod ceir enghreifftiau o erlyniadau diweddar:

Defendant	Offence	Court Decision
Rashid Aziz trading as TR Group Premier Store	16 May 2013 at Caerphilly Magistrates Court. Sale of alcohol to person under the age of 18.	£800 fine, £425.10 costs to the local authority and £80 victim surcharge. Licensing Act 2003
Carl Kilby of Oakdale	9 May 2013 at Caerphilly Magistrates Court. Sale and possession of counterfeit cigarettes and hand rolling tobacco. Sale and possession of cigarettes that did not have required health warnings printed on the packs.	Community Order-60 hours unpaid work £200 costs to the local authority and £15 victim surcharge. Trademarks Act 1994. The Tobacco Products (Manufacture, Presentation and Sale) (Safety) Regulations 2002.
Andrew Whately of Wattsville.	2 May 2013 at Caerphilly Magistrates Court. Sale and possession for supply of counterfeit software.	Community Order- 80 hours unpaid work, £267 costs to the local authority and forfeiture of counterfeit goods. Trade Marks Act 1994.
Layla Jayne Williams & Arron Paul Cattle of Gelligaer.	2 May 2013 at Caerphilly Magistrates Court. Sale of fireworks without a licence and the sale, and possession for supply of counterfeit clothing.	Community Order -120 hours unpaid work, £ 354.50 costs to the local authority, £60 victim surcharge and forfeiture of fireworks and counterfeit clothing. Firework Regulations 2004. Trade Marks Act 1994.

Environmental health prosecutions

Erlyniadau'n ymwneud ag iechyd yr amgylchedd

Defendant	Offence	Court Decision
Sarah Friend, Victoria Street Llanbradach.	Giving her waste to an unknown person subsequently found illegally deposited at Colliery Road Llanbradach. The case was heard at Caerphilly Magistrates Court on Friday 3 June 2013.	£200 fine, £433.83 costs plus victim surcharge of £15. Environmental Protection Act 1990 Section 34 (2a).
Leah Bennett, Lan Y Parc, Nelson	An offence of leaving litter under the Environmental Protection Act 1990 (sect 87/88). The case was heard at Caerphilly Magistrates Court on Thursday 30 May 2013.	The Defendant failed to attend court and was ordered to pay a fine of £110 and costs of £120 as well as victim surcharge of £15. Environmental Protection Act 1990 Section 87/88.
Leah Jones, Heolddu Road, Bargoed.	Discarding litter at Bargoed High Street. The case was heard at Caerphilly Magistrates Court on Thursday 30th May 2013.	The defendant was found guilty and was issued with a £110 fine, £120 costs and a £15 Victim surcharge. The Environmental Protection Act 1990 Sections 87 & 88.

To view the full list, visit www.caerphilly.gov.uk/prosecutions
Prosecution results are provided for a limited period to promote the openness of the council's actions to local residents. Information provided must not be reused in any form without the agreement of CCBC.

Gellir gweld y rhestr yn llawn ar www.caerffili.gov.uk/erlyniadau
Caiff canlyniadau erlyniadau eu dangos am gyfnod cyfyngedig i ddangos i drigolion lleol bod y llys yn gweithredu mewn modd agored. Ni dylid aildefnyddio gwybodaeth mewn unrhyw fodd heb ganiatâd Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili.



Gwobrwyo gwirfoddolwyr rhagorol!

Mae gwirfoddolwyr rhagorol o ledled bwrdeistref sirol Caerffili wedi cael cydnabyddiaeth am eu gwaith gwirfoddol gwerthfawr yn y gymuned leol.

Cafwyd ceisiadau gan bobl o bob oedran o bob rhan o'r gymuned ar gyfer Gwobrau Cyflawniadau'r Sector Gwirfoddol eleni, a gynhelir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili a Chymdeithas Mudiadau Gwirfoddol Gwent (CMGG).

Dyweddodd y Maer, y Cynghorydd Michael Gray, "Mae'r digwyddiad blynyddol gwych hwn yn helpu i gydnabod y gwaith gwirfoddol amhrisiadwy a gyflawnir gan gynifer o wirfoddolwyr ledled ein bwrdeistref sirol. Unwaith eto, roedd y rhai a enwebwyd eleni yn

amlygu ymrwymiad ac ymroddiad y grŵp arbennig iawn hwn o bobl."

Mae'r rhestr lawn o enillwyr fel a ganlyn:

- Gwirfoddolwraig sy'n Curo Record – Ann Axford
- Gwirfoddolwr Oedolyn Gwasanaeth Ymarferol – Mark Cartwright
- Gwirfoddolwraig Hŷn sydd wedi Ymddeol – Mavis Organ
- Gwirfoddolwraig Hŷn sydd wedi Ymddeol – Lorna Card
- Gwirfoddolwraig Newydd – Kelly Watts
- Gwirfoddolwr Ifanc – Jess Gadd
- Gwirfoddolwr Amgylcheddol – James Wilkes
- Gwirfoddolwr a Gefnogir gan Gyflogwr – Steve Wilcox

- Gwirfoddolwr Ysbrydoledig – Kane Wilkins
- Grŵp Oedolion Gwasanaeth Ymarferol – Grŵp Adfywio Deri
- Gwirfoddolwraig Orau – Rita Evans

Coronwyd Rita Evans o Abercarn yn Wirfoddolwraig Orau am ei hymroddiad i wirfoddoli. Wedi'i henwebu gan Brian Evans, mae Rita wedi bod yn weithgar yn ei chymuned am nifer o flynyddoedd, lle mae hi'n gwneud cyfraniad mawr at waith nifer o grwpiau cymunedol gwahanol.

Disgrifiwyd Rita gan y Cynghorydd Gerald Jones, Dirprwy Arweinydd y Cyngor, wrth gyhoeddi mai hi oedd enillydd y categori Gwirfoddolwr Gorau, fel "person rhyfeddol sy'n gofalu'n

angerddol am bobl eraill, ac mae ei hymrwymadau gwirfoddoli niferus yn dangos hyn."



■ **Rita Evans** - Gwirfoddolwraig Orau

Noddwyd Gwobrau Cyflawniadau'r Sector Gwirfoddol eleni gan bapur newydd y Campaign, Heddlu Gwent a Groundwork Caerffili.



Ymrwymiad y Cyngor i staff rheng flaen

Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yw'r cyngor cyntaf yng Nghymru i gael ei achredu'n swyddogol gan y Sefydliad Cyflog Byw.

Enwyd yr awdurdod yn 'Gyfogwr Cyflog Byw' am yr ymrwymiad a ddangoswyd ganddo i roi cyflog byw, sef £7.45 yr awr ar hyn o bryd, i bron 1800 o'i staff sy'n derbyn y cyflogau isaf.

Yr isafswm cyflog cenedlaethol ar hyn o bryd yw £6.19 ond ym mis Hydref 2012 cyflwynodd y Cyngor y cyflog byw ar gyfer pob cyflogai sy'n cael ei dalu llai na £7.20 yr awr. Cynyddwyd hyn ymhellach gan 25c yr awr ym mis Chwefror 2013, yn dilyn cynnydd a weithredwyd gan Lywodraeth Cymru ym mis Tachwedd 2012.

Dyweddodd y Cynghorydd Chris Forehead, yr Aelod Cabinet ar gyfer Adnoddau Dynol a Llywodraethu, "Rwy'n falch iawn ein bod ni fel cyngor yn gallu dweud bod pob un o'n staff yn cael budd o ennill y cyflog byw. Mae'r achrediad hwn gan y Sefydliad Cyflog Byw yn arwydd clir o'n hymrwymiad i bob aelod o staff, yn cynnwys y miloedd o staff sy'n darparu ein gwasanaethau rheng flaen."

Ar hyn o bryd mae 1798 o bobl a gyflogir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn ennill y cyflog byw, gan ennill 20% yn fwy na'r isafswm cyflog cenedlaethol.



Mae yna nifer o swyddi ym mhob un o Gyfadranau'r Cyngor sydd wedi cael budd o weithredu'r Cyflog Byw.

Gellir gweld rhestr lawn o'r cyflogwyr achrededig ar www.livingwage.org.uk



Eich Newline

"Cynhyrchir Newline gan y cyngor i ddod â'r newyddion diweddaraf a gwybodaeth atoch o ar draws y fwrdeistref sirol. Rydym yn awyddus i glywed eich sylwadau am y cyhoeddiad a byddwn yn croesawu unrhyw adborth. Cysylltwch â fi os oes unrhyw ymholiadau gennych am y wybodaeth sydd wedi ei chynnwys yn Newline a byddaf yn danfon eich sylwadau ymlaen at yr adran berthnasol. Cofiwch - ceiwch fersiynau sain a phrint bras o Newline ar gais."

Stephen Pugh - Golygydd e-bost: pughs@caerffili.gov.uk

Post: Uned Gyfathrebu, Tŷ Penallta, Parc Tredomen, Ystrad Mynach, Hengoed, CF82 7PG.



CYFLYMACH I HAWLIO AR-LEIN!

A wyddoch chi y gallwch wneud cais am ostyngiad Fudd-dal Tai / Treth y Cyngor neu gwblhau ffurflen Newid Amgylchiadau ar-lein?

Ceisiadau Newydd:

www.caerffili.gov.uk/CeisiadauBudd-dal/

Newid Amgylchiadau

www.caerffili.gov.uk/NABudd-dal/



Pam gwneud cais ar-lein?

- Mae'n ddiogel a gallwch arbed amser ac arian.
- Rydych yn gallu gwneud cais pan mae'n gyfleus i chi.
- Mae'n gyflymach felly byddwch yn cael penderfyniad ynghynt.
- Mae'n hawsach a gall newidiadau cael eu gwneud yn gyflymach.
- Yn y dyfodol bydd mwy o ffurflenni budd-dal ar gael ar-lein felly byddwch ar y blaen.

A wyddoch chi fod pob llyfrgell gyda chyfrifiaduron ar gael i ddefnyddio

AM DDIM? Cysylltwch â'ch llyfrgell leol am fanylion pellach.



Hwb Teithio Gweithredol yn cael ei lansio!

Roedd Canolfan Croeso Caerffili yn llawn beiciau yn ddiweddar wrth i ddisgyblion o Ysgol Cenydd Sant ymuno ag elusen cludiant Sustrans i lansio Hwb Teithio Gweithredol yng nghanol tref Caerffili.

Ar ôl beicio o'r ysgol, rhoddwyd rhagolwg o weithgareddau sydd ar gael yn y Hwb Teithio newydd i ddisgyblion blwyddyn 7 o Ysgol Cenydd Sant. Wedi ei ddylunio i helpu cael pobl allan o'u ceir, ac yn darparu ar gyfer yr holl lefelau o brofiad, mae'r hwb yn cynnig hyfforddiant beicio, i helpu codi lefelau hyder, dosbarthiadau cynnal beiciau, teithiau tywys a reidiau, a chynghor cynllunio llwybr manwl.

Dyweddodd Cyng. Tom Williams "Trwy fuddsoddiad cyson gan y cyngor a phartneriaid eraill, mae gan fwrdeistref sirol Caerffili rwydwaith gwych o lwybrau cerdded a beicio. Mae'r Hwb Teithio yn fodd gwych i godi ymwybyddiaeth o'r llwybrau hyn, a rhoi'r hyder i bobl i'w trio am y tro cyntaf."

Wedi ei leoli ar lawr gwaelod Canolfan Croeso Caerffili, mae'r hwb Teithio wedi ei ariannu gan Lywodraeth Cymru, a chefnogir gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili. Bydd yn cael ei redeg gan Sustrans, a fydd hefyd yn darparu Cynllunio Teithio wedi'i phersonoli i dai ar draws bwrdeistref sirol Caerffili yn yr Hydref.

Mae ar agor o 10am-5pm Dydd Mawrth i Ddydd Sadwrn, ac mae ymweld â'r Hwb Teithio yn fodd perffaith i ddechrau dull byw mwy gweithgar trwy gerdded a beicio, cael gwybodaeth ar sut i fwynhau orau cefn gwlad rhyfeddol De Cymru yr haf hwn, a dechrau teithio yn gyflymach, yn fwy iachus ac yn fwy hapus.

Ennill gyda Sustrans! Dychwelwch y cwpon eich hun i'r Hwb Teithio yng Nghanolfan Croeso Caerffili i gael eich cynnwys mewn raffl fawr i ennill £100 o dalebau beiciau. Dyddiad cau yw Dydd Gwener 26ain Gorffennaf.

Enw:

Cyfeiriad:


Rhif Ffôn:

Cyfeiriad e-bost:

Blwyf!!! Digwyddiadau'r



Mae gennym raglen o ddigwyddiadau cyffrous ar y gweill dros y misoedd nesaf a bydd rhywbeth at ddant pawb. Rydym wedi amlygu ein prif ddigwyddiadau isod, ond cynhelir digwyddiadau a gweithgareddau amrywiol eraill ledled y fwrdeistref sirol dros yr haf, felly i gael gwybod mwy ewch i www.caerffili.gov.uk




Penwythnos y Caws Mawr **Ddydd Sadwrn 27** **a Dydd Sul 28 Gorffennaf**

Y digwyddiad cyntaf yw Penwythnos y Caws Mawr yng Nghaerffili. Mae'r hwyl yn dechrau ar y nos Wener gyda'r Ras Gaws Fawr a'r arddangosfa dân gwylt i ddathlu dechrau hwyl yr ŵyl.

Bydd y penwythnos yn cynnwys hwyl i'r teulu cyfan gyda cherddoriaeth, adloniant, stondinau crefftau, ailgreadau yn ogystal â'r ffair anferth sy'n cynnig popeth o reidiau i blant i reidiau cyffrous i bobl o bob oedran. Bydd parcio a theithio eleni yn cael ei leoli yn Ysgol Cenydd Sant ac Ysgol Uwch Bedwas. Ni fydd parcio a theithio yn yr hen Ysgol Sant llan.

www.caerffili.gov.uk/ycawsmawr



Y Proms yn Dychwelyd! **Ddydd Sadwrn 7 Medi**

Mae BBC Cymru Wales wedi cyhoeddi y bydd Proms yn y Parc yn dychwelyd i Gaeau Chwarae Owain Glyndŵr, Caerffili, am y trydydd tro.

Bydd y dref yn rhan o ddatliadau noson olaf Proms y BBC unwaith eto wrth i Gerddorfa Genedlaethol Gymreig y BBC ddod â'r Proms yn y Parc i Gaerffili am noson o berfformiadau penigamp yn yr awyr agored, gyda Chastell Caerffili yn gefnlen arbennig i'r cwbl.

I gael y wybodaeth ddiweddaraf am ddigwyddiadau gan gynnwys manylion tocynnau, ewch i

www.bbc.co.uk/proms



Ras Feicio'r Tour of Britain **Ddydd Iau 19 Medi**

Bydd beicwyr gorau'r byd yn rasio ar hyd strydoedd y fwrdeistref sirol yng nghymal Cymru y Tour of Britain.

Bydd Cymal Pump y ras (177 cilometr o Fachynlleth i Gaerffili) yn gorffen yn y dref ar ôl dringo mynydd Caerffili ddwywaith cyn i'r beicwyr gyrraedd y llinell derfyn ger y Castell. Mae'r llwybr wedi newid o gymharu â'r blynyddoedd blaenorol gyda'r beicwyr yn dod i mewn i ogledd y fwrdeistref sirol drwy Gwm Darran, Bargod, Gilfach, Pengam ac Ystrad Mynach cyn rasio drwy Lanbradach ac i mewn i Gaerffili. I weld manylion llawn y llwybr a gwybodaeth arall ewch i

www.thetour.co.uk



Cynhelir ystod eang o ddigwyddiadau yn ein hatyniadau twristiaid eraill hefyd yn cynnwys Llancaiach Fawr, y Tŷ Weindio, Canolfan Ymwelwyr Cwmcarn a Sefydliad y Glowyr Coed Duon.

Os yw'n well gennych dreulio amser yn yr awyr agored gallwch fynd i'n parciau gwledig prydferth i fwynhau digwyddiadau megis cerffo coed, gwneud blychau pryfed, gwau helyg, ffotograffiaeth bywyd gwylt a hwyl mewn glaswelltiroedd!
Ewch i www.caerffili.gov.uk/cefngwlad

Peidiwch ag anghofio ein canolfannau hamdden hefyd! Cynhelir llawer o ddigwyddiadau ar gyfer pobl sy'n hoffi chwaraeon a chadw'n heini ledled y fwrdeistref sirol – ewch i www.caerffili.gov.uk/dullbywamdden



Ysgol newydd sy'n addas ar gyfer yr 21ain Ganrif

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi cyhoeddi cynlluniau i adeiladu ysgol uwchradd newydd o'r radd flaenaf fel rhan o raglen uchelgeisiol yr awdurdod, Ysgolion yr 21ain Ganrif.

Sefydlwyd Gweithgor o Aelodau i wneud argymhellion o ran Cam Un cynlluniau rhesymoli ysgolion uwchradd y Cyngor a phenderfynodd y grŵp roi blaenoriaeth i ardal 'Gorllewin Islwyn' (Pontllan-fraith, Oakdale a Choed Duon).

Dan y cynigion, byddai ysgolion uwchradd presennol Oakdale a Phontllan-fraith yn cau, ond bydd disgyblion o'r ardal yn cael budd o ddatblygiad ysgol newydd cyffrous ar safle newydd neu'n cael eu trosglwyddo i Ysgol Uwchradd Coed Duon.

Bydd y cynnig yn helpu i leihau nifer y lleoedd gwag mewn ysgolion yn yr ardal o 22.1% i 16.9%.

Dyweddodd y Cynghorydd Rhiannon Passmore, yr aelod cabinet dros addysg, "Mae hyn yn newyddion cyffrous iawn o ran dyfodol addysg yn yr ardal. Os caiff y cynlluniau eu cadarnhau, bydd gan y disgyblion gyfleusterau addysg o'r radd flaenaf mewn adeilad modern sy'n addas at y diben. Yn amlwg mae angen i ni ddilyn proses drwyadl er mwyn sicrhau cynnydd y cynlluniau hyn, a bydd cynnal ymgynghoriad llawn yn elfen allweddol wrth fynd ymlaen."

Caiff cynnig Gorllewin Islwyn ei ystyried gan y Cyngor Llawn ar 23 Gorffennaf. Os yw'r Cyngor yn cytuno i'r cynnig, cynhelir ymgynghoriad eang i sicrhau y caiff pawb sydd â diddordeb gyfle i fynegi barn yn ystod tymor yr Hydref 2013. Bydd hyn yn cynnwys llunio dogfen ymgynghori ginhwysfawr a chaiff cyfarfodydd amrywiol eu trefnu gyda'r rhanddeiliaid allweddol.



Llwybrau Mwy Diogel i'r Ysgol

Mae nodau Llywodraeth Cymru yn cynnwys annog trafniadaeth gynaliadwy a gwella diogelwch plant wrth iddynt deithio i'r ysgol.

Ers deng mlynedd bellach mae Cydlynedd Cynlluniau Teithio Ysgol Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili wedi bod yn cydweithio ag ysgolion i roi cynlluniau teithio llwyddiannus ar waith. Yn ystod y cyfnod hwn mae llawer o'r cynlluniau a gyflawnwyd yn y fwrdeistref hon wedi cael eu rhoi ar waith yn genedlaethol fel enghraifft o arfer da.



Dyma rai o'r cynlluniau sy'n helpu disgyblion i deithio i'r ysgol yn ddiogelach ac yn fwy cynaliadwy yng Nghaerffili:

- Mae gan 53 o ysgolion Gynllun Teithio ar waith.
- Mae 15 o Fysus cerdded ar waith ledled Caerffili ac mae rhai cannoedd o blant yn cerdded i'r ysgol bob wythnos.
- Sefydlwyd 5 Llwybr Diogel fel rhan o Gynlluniau Cymunedol yn Rhymni, Trecelyn, Senghenydd, Rhisga a Choed Duon.
- Diweddarwyd ffyrdd gyda manau croesi diogel, rheiliau a pharthau 20mya.
- Erbyn hyn mae gan nifer o ysgolion ledled y fwrdeistref gyfleusterau diogel i gadw beiciau.
- Mae miloedd o blant yn cymryd rhan yn y Mis Cerdded i'r Ysgol drwy gerdded i'r ysgol am fis cyfan gyda chefnogaeth adnoddau gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili ac asiantaethau partner.

Yn 2013 mae Ysgol Gynradd Bryn Awel, Ysgol Gynradd Rhiw Syr Dafydd ac Ysgol Penalltau wedi ennill Gwobrau Cenedlaethol am Gynllunio Teithiau eisoes.

Coleg Gwent
ENROL NOW
COFRESTRWCH
NAWR

DON'T MISS OUT ON YOUR PLACE

01495 333777

LATE ENROLMENT: 27 & 28 AUGUST 3PM – 8PM

info@coleggwent.ac.uk
www.coleggwent.ac.uk/enrol

**Unemployed?
Facing Redundancy?
Need training?**

You may be entitled to FREE training with us that will not affect your benefits!

Are you:

- Aged 16-65?
- Living in Blaenau Gwent, Caerphilly or Torfaen?
- Not working or working less than 16 hours a week?
- Not in full-time education?
- Not on the Work Programme?

Get started today.
Call us on
01495 333576
or email via
qwest@coleggwent.ac.uk
bdu.coleggwent.ac.uk/qwest

Anrhydeddu ein Harwyr!

Mae trigolion yn cael eu hannog i ddod allan i ddangos eu cefnogaeth tuag at ddynion a menywod dewr Bataliwn 1af Brenhinol Cymru wrth iddynt orymdeithio trwy dref Bargod ym mis Medi.

Bydd Bataliwn 1af Brenhinol Cymru yn dychwelyd i fwrdeistref sirol Caerffili ar **Ddydd Sadwrn 28ain Medi** am hanner dydd i orymdeithio trwy ganol tref Bargod er mwyn nodi trydydd pen-blwydd ers i'r gatrawd dderbyn Rhyddid bwrdeistref sirol Caerffili. Bydd y digwyddiad hefyd yn cynnig cyfle i arddangos y gwaith adfywio i dref Bargod i ymwelwyr i'r dref.

Dywedodd Arweinydd y Cyngor, Cyng Harry Andrews, "Rydym wrth ein bodd yn croesawu'r Bataliwn 1af Frenhinol Cymru yn ôl i'n bwrdeistref sirol, a byddwn yn annog cymaint o drigolion â phosibl i ddod allan a dangos eu cefnogaeth a'u gwerthfawrogiad i'r gatrawd."

Rhodddwyd Rhyddid bwrdeistref sirol Caerffili i Fataliwn 1af Brenhinol Cymru ym mis Medi 2010. I nodi'r digwyddiad, gorymdeithiodd dros 150 o bersonél y Fyddin trwy ganol trefi Caerffili a Choed Duon, wrth iddynt gael eu calonogi gan filoedd o drigolion y fwrdeistref sirol.

Am fanylion pellach, ffoniwch **01443 863218**.



Parcio ym Mhengam

Ar 6 Mehefin 2013 cynhaliwyd agoriad swyddogol cyfleuster parcio a theithio newydd Gorsaf Rheilffordd Pengam gan Edwina Hart AM.



Mae'r cyfleuster hwn yn cynnwys 170 o lefydd parcio unigol, storfa feiciau, gwell fynediad a nodweddion diogelwch ychwanegol. Cyflawnwyd y cynllun £1.5 miliwn drwy Lywodraeth Cymru â chefnogaeth Cronfa Ddatblygu Ranbarthol Ewropeaidd.

Bydd y cyfleuster parcio a theithio yn sicrhau trefniadau teithio hwylus i gymudwyr ac yn lleihau effaith y traffig ar drigolion lleol. Drwy annog mwy o bobl i deithio ar y trên bydd y cyfleuster newydd hefyd yn arbed hyd at 40 tonn o allyriadau carbon bob blwyddyn.

Dywedodd y Cyng. Tom Williams, Aelod Cabinet dros Briffyrdd, Cludiant a Pheirianneg, ac Aelod Bwrdd Sewta, y Consortiwm Trafnidiaeth Rhanbarthol, "Rydym wedi ymrwmo i gynnig cysylltiadau trafniadaeth newydd a gwell i'n trigolion a fydd yn helpu i wneud y fwrdeistref hon yn lle glanach a gwyrddach i fyw a gweithio ynddi, ac ymweld â hi. Yn ogystal â bod o fudd i'r trigolion lleol a'r rheini sy'n teithio ar y trên, mae'r cynllun hwn o fudd i'r amgylchedd hefyd."

Cyfleuster parcio a theithio Pengam yw'r ail brosiect parcio a theithio o'i fath i gael ei agor ar reilffordd Cwm Rhymini yn dilyn cwblhau'r cyfleusterau parcio a theithio ym Margod yn ystod y 4 blynedd diwethaf ym Mwrdeistref Sirol Caerffili. Mae cyfleuster parcio a theithio pellach ar y gweill ar gyfer Gorsaf Rheilffordd Rhymini.

LLWYDDIANT 10 CILOMEDR CAERFFILI

Daeth dros 1,500 o redwyr i gymryd rhan yn ras 10 cilometr gyntaf erioed Caerffili y mis diwethaf.

Bu pobl o bob oedran a gallu yn rhedeg ar hyd y cwrs 6.2 milltir a oedd yn dechrau ac yn gorffen yng nghysgod Castell Caerffili. Cafodd y rhedwyr gefnogaeth gan drigolion ar hyd y ffordd gan helpu i'w wneud yn ddiwrnod cofiadwy. Gorffennodd Rob Bugden yn

gyntaf gydag amser gwych o 32m 11sec, ond roedd pawb a fu'n cymryd rhan yn enillwyr gyda llawer ohonynt yn codi arian er budd ystod eang o elusennau.

"Roedd ras 10 cilometr gyntaf Caerffili yn llwyddiant ysgubol ac rydym yn gobeithio y bydd hwn yn ddigwyddiad blynyddol yn y dyfodol. Hoffwn ddiolch i bawb fu'n cefnogi'r digwyddiad a hoffwn annog hyd yn oed mwy o bobl i ddechrau ymarfer ar gyfer ras y flwyddyn nesaf!" dywedodd y Cyngorydd Ken James.

Datblygwyd y digwyddiad gan y Cyngor gyda chymorth Athletau Cymru a Chwaraeon Cymru.

www.caerffili.gov.uk/10cilometr



Roedd Ras 10 Cilometr Gyntaf Caerffili yn llwyddiant ysgubol!



Balchder Bro



Gwobrau 2013

BOB BLWYDDYN MAE MILOEDD O BOBL YN GWNEUD EU RHAN I WELLA ANSAWDD YR AMGYLCHEDD LEDLED BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI.

MAE'R GWOBRAU *Balchder Bro* YN FENTER SY'N CYDNABOD YR YMDRECH, ARLOESIEDD AC YMRWYMIAD Y RHAI HYNNY SYDD WEDI HELPŪ I WNEUD EIN HARDAL YN LANACH, YN FWY DIOGEL, YN WYRDDACH AC YN LE GWELL I FYW A GWEITHIO YNDDO.

MAE'R CYNLLUN GWOBRAU YN AGORED I HOLL DRIGOLION, YSGOLION, BUSNESAU A GRWPIAU CYMUNEDOL O FEWN Y FWRDEISTREF SIROL.



Y DYDDIAD CAU AR GYFER CEISIADAU YW 11EG HYDREF 2013

Seda
INTERNATIONAL PACKAGING GROUP

CAERPHILLY
COUNTY BOROUGH COUNCIL
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
CAERFFILI

Categori'r Wobr	Meini Prawf
Ewch yn Wyllt!	Gwobrwyo gwaith bywyd gwylt a chefn gwlad sydd wedi helpu i gyfoethogi bioamrywiaeth.
Cadw'r Lle yn Daclus	Yn gwobrwyo glendid ac atyniad eiddo busnes (siop, busnes, ffatri a.y.b.).
Busnes Amgylcheddol Gorau	Gwobr ar gyfer Rhagoriaeth Arloesol ac Amgylcheddol.
Gwobr Ailgylchu mewn Ysgolion	Gwobrwyo dyfeisgarwch, lleihau gwastraff a gweithgareddau ailgylchu.
Addysg Amgylcheddol	Gwobrwyo rhagoriaeth mewn gwaith Eco Prosiectau yn ein hysgolion a'n colegau.
Byw yn Iach	Yn gwobrwyo gweithgareddau sy'n hybu dull byw iachus.
Cludiant Cynaliadwy	Gwobrwyo arloesedd a rhagoriaeth mewn prosiectau trafndiaeth.
Prosiect Cymunedol Gorau	Gwobrwyo gweithgareddau a digwyddiadau sydd wedi gwella lles, diogelwch a/neu ansawdd yr amgylchedd yn ein cymunedau lleol.
Ardal y Cedwid Orau	Yn cydnabod ymdrechion cymdogaeth i wella ansawdd ei hamgylchedd lleol.
Pencampwr/wraig Amgylcheddol Ifanc	Gwobr am unigolyn rhagorol (5 - 25 oed) sydd wedi cyfrannu at wella amgylchedd a lles y gymuned.
Pencampwr/wraig Amgylcheddol	Gwobr am unigolyn rhagorol (dros 25) sydd wedi cyfrannu at wella amgylchedd a lles y gymuned.

Y dyddiad cau ar gyfer ceisiadau yw 11eg Hydref 2013.

Caiff pob cais ei asesu gan banel annibynnol. Caiff yr ymgeisywyr ar y rhestr fer eu gwahodd i noson wobrwyo ar 29ain Tachwedd 2013. **Bydd enillwyr categori gwobr yn derbyn gwobr arian o £500 a byddent yn gymwys ar gyfer gwobr fawreddog yr enillydd cyffredinol.**

Dychwelwch y ffurflen gais wedi ei chwblhau ynghyd ag unrhyw ffotograffau a gwybodaeth atodol eraill at: Rhodri Lloyd, Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, Adran yr Amgylchedd, Tŷ Pontllan-fraith, Heol Coed Duon, Pontllan-fraith, NP12 2YW. Ffôn: **01443 873758** e-bost: balchderbro@caerffili.gov.uk

Golau ar Ystrad Mynach

Bydd canol tref Ystrad Mynach yn buddio o gael ei chynnwys ym mhorthfolio Tîm Rheoli Canol Tref y cyngor.

Yn y gorffennol, mae'r tîm wedi edrych ar ôl Bargod, Coed Duon, Caerffili a Rhisga, ond nawr byddant hefyd yn hyrwyddo Ystrad Mynach i ddenu mwy o siopwyr, mwy o fuddsoddiad a hyd yn oed mwy o ddigwyddiadau i'r dref fywiog.



Dyweddodd Cyng. Ken James, Aelod Cabinet dros Adfywio, "Mae hyn yn newyddion gwych i Ystrad Mynach gan fydd y tîm yn gweithio'n galed i hyrwyddo'r dref ar lefel leol, rhanbarthol a chenedlaethol.

"Mae Ystrad Mynach yn gem yng nghalon y fwrdeistref sirol ac mae'r dref yn mwynhau adfywiad ar hyn o bryd diolch i'r datblygiadau gerllaw gan gynnwys yr ysbyty, swyddfeydd y cyngor a'r prif adeilad chwaraeon newydd a fydd yn cael ei adeiladu cyn bo hir ar yr hen safle ysbyty."

"Mae'r rhain yn amserau cyffrous ac rydym yn edrych ymlaen at weithio gyda'r manwerthwyr a'r trigolion yn y dref i ddod â hyd yn oed fwy o fuddion i'r ardal" ychwanegodd.

Mae baneri wedi'u brandio wedi cael eu gosod ar bolion lamp ar draws canol y dref a bydd pob busnes yn derbyn sticeri ffenestr sy'n cynnwys y brand newydd cyffrous ar gyfer Ystrad Mynach.



Am fwy o wybodaeth, cysylltwch ag **Andrew Highway, Rheolwr Datblygu Canol y Dref** ar **01443 866213**.



Pennod newydd i lyfrgelloedd lleol

Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili yn torri cwys newydd o ran buddsoddi mewn llyfrgelloedd lleol.

Mae llawer o lyfrgelloedd yn cau mewn rhannau eraill o'r wlad, ond yng Nghaerffili rydym yn gwario symiau sylweddol er mwyn sicrhau y gall trigolion fwynhau'r manteision niferus sydd ar gael yn eu llyfrgell leol.

Ymhlith y datblygiadau diweddar mae'r gwaith trawiadol i ail ddatblygu Capel Hanbury ym Margod, agor llyfrgell newydd yn Abercarn, ailwampio Palas Rhisga ac ailagor llyfrgell Aberbargod. Bellach mae llyfrgell newydd y tu mewn i Neuadd Goffa Trecelyn ac mae'r gwaith o godi'r llyfrgell a'r ganolfan gwasanaethau cwsmeriaid newydd trawiadol yng Nghaerffili bron wedi'i gwblhau.

Dyweddodd y Cyngorydd Rhiannon Passmore, yr aelod cabinet dros addysg a dysgu gydol oes, "Mae'r cyngor yn cydnabod pwysigrwydd ein llyfrgelloedd lleol, ac rydym yn arwain y ffordd yng Nghymru gyda'n rhaglen fuddsoddi. Mae mwy i lyfrgelloedd na dim ond llyfrau, mae'r canolfannau cymunedol pwysig hyn yn gyfleuster ar gyfer cymdeithasu a dysgu gyda MYNEDIAD AM DDIM i gyfleusterau TG ac ystod eang o adnoddau defnyddiol ar gyfer pobl o bob oedran."

Ewch i www.caerffili.gov.uk/llyfrgelloedd, ffoniwch **01443 864068** neu ebostiwch: llyfrgelloedd@caerffili.gov.uk, neu ewch i'ch llyfrgell leol am ragor o wybodaeth am bopeth sydd gan y Gwasanaeth Llyfrgelloedd i'w gynnig.

Yn cael Busnesau i weithio Ar-lein


Mae gwefan GO2 MyTown yn rhwydwaith ar-lein newydd o 7 o ganol trefi digidol yn mwrdeistref Caerffili sydd yn hysbysebu busnesau lleol i gwsmeriaid 24 awr y diwrnod, 7 diwrnod yr wythnos.

Gall busnesau, mentrau cymdeithasol, grwpiau y sector gwirfoddol, ysgolion ac eglwysi greu rhestriad cyhoeddus am ddim ar wefannau un neu fwy o ganolau trefi er mwyn hyrwyddo eu hunain. Mewn mis nodweddiadol mae 900,000 o chwiliadau rhyngwyd am fusnesau lleol ar-lein, felly peidiwch â cholli'r cyfle bendigedig yma i hyrwyddo eich busnes lleol neu grŵp cymunedol er mwyn tynnu sylw atoch eich hunan.

Mae busnesau lleol sydd yn ymddangos ar wefan **GO2 MyTown** yn meddwl ei fod yn wych. Dywedodd Mike Carey, Mototec Pontllan-fraith "Mae fideo YouTube ar fy ngwefan My GO2 ac rydyn ni wedi denu busnes newydd ar draws De Cymru o ganlyniad i'n rhestriad."

Felly cefnogwch fusnesau lleol a defnyddiwch **GO2 MyTown** i ddod o hyd i ddiwyddiadau, newyddion, cynigion arbennig, swyddi a mwy. Ewch i www.go2mytown.co.uk i ddod o hyd i'ch tref ac fe welwch beth sydd ar gael.

"Mae fy ngwefan GO2 wedi denu busnes newydd"



Rhoi'r flaenoriaeth i ddiogelwch plant

Unwaith eto mae'r adran Safonau Masnach yn cynnig cyfle i rieni a gofalyddion yn yr ardal gael seddi car eu plant wedi'u profi fel rhan o ymgyrch i ddod o hyd i gyfarpar anaddas neu gyfarpar sydd wedi'i osod yn anghywir.

Bydd arbenigwyr ar gael i gynnig help a chyngor o ran dewis a gosod cyfarpar sy'n addas i'r plentyn a'r cerbyd.

Rhoddir pecyn gwybodaeth am ddim sy'n cynnig cyngor i rieni a gweithgareddau cysylltiedig i bawb sy'n cael prawf.



Cynhelir y digwyddiadau ar y diwrnodau canlynol:

■ **Dydd Iau 18 Gorffennaf -**

Asda, Heol Pontygwindy, Caerffili – rhwng 9.30am a 4pm

■ **Dydd Gwener 9 Awst -**

Tesco, Ystad Ddiwydiannol Pont-y-meistr, Rhisga – rhwng 9.30am a 4pm

Am ragor o wybodaeth ffoniwch Safonau Masnach ar **01495 235 291**



Bywyd gwyrdd y tu hwnt i'r grid

Mae gwaith wedi'i gwblhau ar eco-ffermdy o'r radd flaenaf yng nghanol cefn gwlad prydferth Bwrdeistref Sirol Caerffili.

Mae fferm Maes-yr-Onn, Man-moel, bellach yn cynnwys ffermdy ysblennydd sy'n hollol gynaliadwy; cartref newydd Arthur Davies a'i deulu sy'n dod i arfer â byw mewn lleoliad nad yw wedi'i gysylltu â'r prifgyflenwadau ynni, dŵr a charthffosiaeth.

Wrth ddiolch i bawb fu'n rhan o'r prosiect, dywedodd Arthur: "Rwy'n ddiolchgar i bob aelod o'r tîm prosiect sydd wedi gwireddu ein breuddwyd o fyw ar y fferm a'i drawsffurfio i realiti."

Mae'r eiddo yn cynnwys nifer o enghreifftiau o dechnolegau 'gwyrdd': paneli ffotofoltäig, cynaeafu dŵr glaw, boeler biomas gyda storffeydd thermol a system wresogi arloesol sy'n defnyddio bordiau'r waliau.


Dywedodd y Cynghorydd Ken James, yr Aelod Cabinet dros Adfywio, Cynllunio a Datblygu Cynaliadwy, "Ar ôl wynebu llawer o heriau wrth adeiladu mewn lleoliad nad yw wedi'i gysylltu â'r prif gyflenwadau trydan, nwy, dŵr a charthffosiaeth, rwyf wrth fy modd bod y teulu bellach wedi ymgartrefu ar eu haelwyd newydd."

Datblygwyd yr eiddo yn sgil partneriaeth rhwng Cyngor Bwrdeistref Sirol Caerffili, y Sefydliad Ymchwil Adeiladu a SSE, gan gydweithio'n agos â'r teulu i ddylunio ac adeiladu eu cartref delfrydol.

Bydd Adeiladu Arbenigrwydd yng Nghymru a thîm RDP yn monitro'r defnydd o ynni dros y tair blynedd nesaf.



Mae'r eiddo yn cynnwys nifer o enghreifftiau o dechnolegau 'gwyrdd'



Mae Caerffili yn gwneud addewid!

Mae Caerffili wedi cefnogi Datganiad Dulyn 2013 ar gyfer Cymunedau a Dinasoedd Oedran-gyfeillgar, sydd yn dangos ein hymrwymiad i'n gwaith tuag at fabwysiadu egwyddorion Sefydliad Iechyd y Byd a fydd yn gwneud ein cymunedau yn oedran-gyfeillgar.

Dywedodd y Cyng. Christine Forehead, ein Pencampwraig Pobl Hŷn "Rwy'n falch i allu arwyddo ar ran y cyngor, oherwydd ei fod yn gwneud ein bwriad yn gyhoeddus i barhau â, a datblygu'n ymhellach ein mentrau Gweithredu Cadarnhaol 50+ yr ydyn ni'n credu fydd yn gwneud ein cymunedau'n fwy oedran-gyfeillgar. Rydyn ni eisiau ymateb i'r hyn mae pobl hŷn yn ei ddweud sy'n bwysig iddyn nhw wrth gadw'n heini, ac wrth gymryd rhan ym mywyd y gymuned leol."

Yn ddiweddar, cyhoeddodd Llywodraeth Cymru gyfnod tri o'i strategaeth ar gyfer pobl hŷn – 'Byw'n hirach: heneiddio'n dda' sydd yn gosod her i wneud ein llefydd rhanedig yn fwy croesawgar, diogel a hygyrch i bobl hŷn.

I ddarganfod mwy am Bartneriaeth 50+ Caerffili, ffoniwch Mandy Sprague ar **01443 864277**.

